RHIFYN
ISSUE
46
25.03.22

Llais Llantrisant

EISTEDDFOD YR URDD 2022
URDD EISTEDDFOD 2022

Llongyfarchiadau mawr i'n ffrindiau isod wedi iddynt gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd 2022 yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg yn ddiweddar. Diolch hefyd, i rieni'r plant am eu holl waith caled tra'n hyfforddi'r plant. Pob lwc i'r rhai sydd yn symud ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych fis Mehefin.

Many congratulations to our friends below who competed in the regional round of the Urdd Eisteddfod 2022 in Garth Olwg Lifelong Learning Centre recently. Many thanks also, to the children's parents for all their hard working in coaching the children. Good luck to those who are now moving on to compete in the Urdd National Eisteddfod in Denbighshire in June.











DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

31.03.22 - Ymweliad Blwyddyn 5 ag Eglwys Bethel
Year 5 visit Bethel Church
04.04.22 - Noson Athrawon-Rhieni #1
Teacher-Parent Evening #1
05.04.22 - Noson Athrawon-Rhieni #2
Teacher-Parent Evening #2
08.04.22 - Plant yn gorffen am wyliau'r Pasg
Children finish for Easter break
25.04.22 - Diwrnod HMS
INSET Day

#LLES
#WELLBEING

Mae'r plant i gyd wrth eu boddau gyda'r meinciau picnic newydd ar y meysydd chwarae! Lle braf i gael hoe fach a chlonc gyda ffrindiau yn ystod amser chwarae ac amser cinio!

All of the children are over the moon with the new picnic benches on the playgrounds! An ideal spot for a quick sit down and a gossip with friends playtime and lunchtime!



A NESAF, RHAGOLYGON Y TYWYDD
AND NEXT, THE WEATHER



Daeth wyneb cyfarwydd o fyd y teledu i siarad â phlant Dosbarthiadau 3, 4 a 5 yn ddiweddar. Daeth @KateLewisITV i drafod ei chyn-rôl fel cyflwynydd rhagolygon y tywydd ar @ITVCymruWales gan fod y plant wedi bod yn astudio'r tywydd y tymor hwn.

A familiar face from the world of television came to visit the children in Classes 3, 4 and 5 recently. @KateLewisITV came along to talk to the children about her previous role as a weather presenter on @ITVCymruWales as the children have been studying the weather this term.

BLWYDDYN NEWYDD IRAN
THE IRANIAN NEW YEAR

Diolch i rieni I.B., S.B. a M.B. am ddod i'r ysgol i rannu arferion a thraddodiadau Blwyddyn Newydd Iran gyda Dosbarthiadau 2 i 5.

Many thanks to I.B., S.B. and M.B.'s parents for coming along to school to share the customs and traditions of the Iranian New Year with Classes 2 to 5.





CWIS DIM CLEM

THE 'NO IDEA' QUIZ

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm o blant Blwyddyn 6 oedd wedi cystadlu yn 'Cwis Dim Clem' @MenterIaithRhCT y tymor hwn.

Congratulations to the team of Year 6 children who competed in @MenterIaithRhCT's 'No Idea Quiz' this term.



LLONGYFARCHIADAU A.S.!

CONGRATULATIONS A.S.!



Mae A.S. wedi'i ddewis ar gyfer sgwad perfformiad 'Cricket Wales South Pathway' o dan 11. Llongyfarchiadau mawr! Rydym yn edrych ymlaen at glywed yr hanes i gyd!

A.S. has recently been chosen for the Under 11s performance squad for 'Cricket Wales South Pathway'. Many congratulations and we look forward to hearing all about it!

HMS 2021-2022

INSET 2021-2022

Eleni, bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 6 diwrnod HMS.

This year, every school in Wales will close for 6 INSET days.

03.09.21	28.02.22
25.04.22	05.05.22
+ 2 i'w trefnu / TBA	

Cofiwch ymweld â / *Remember to visit:* **www.yggglantrisant.cymru**

WCRÁIN

UKRAINE

Diwrnod o gefnogaeth ar gyfer pobl Wcráin.

A day of support for the people of Ukraine.

























RYGBI

RUGBY

Teithiodd tîm o fechgyn Blwyddyn 6 i Ysgol Uwchradd Bryn Celynnog yn ddiweddar i gymryd rhan mewn twrnamaint rygbi Ysgolion Pontypridd. Llongyfarchiadau mawr i'r bechgyn - chwaraeon nhw yn dda iawn a daethon nhw'n bedwerydd!

A team of Year 6 boys travelled to Bryn Celynnog Secondary School recently to take part in the Pontypridd Schools rugby tournament. Congratulations to the boys - they played very well and came fourth!



SALWCH

ILLNESS

Diolch yn fawr iawn am helpu'r ysgol trwy beidio ag anfon plant i'r ysgol os nad ydynt yn hwylus - yn enwedig am 48 awr ar ôl achos o ddolur rhydd. Mae hyn yn diogelu'r staff a'r plant ac yn cadw dosbarthiadau ar agor!

We thank you for helping us by not sending children to school if they are under the weather - especially for 48 hours after a bout of sickness and diarrhoea. This safeguards the staff and pupils and ensures that we aren't in the position of having to potentially close classes!

Iechyd a Moddion / Health and Medicines | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant (secure-primarysite.net)

Dilynwch ni ar / *Follow us on:* **@YGGGLlantrisant**